cymorth cymru
cysylltu • cryfhau • dylanwadu

Cartrefi Cymunedol Cymru

# Materion Tai

## Cyllideb Cymru 2022/23

#HousingMattersWales

## Cymorth Cymru

**Cymorth Cymru** yw'r corff trosfwaol ar gyfer darparwyr gwasanaethau digartrefedd, cymorth ym maes tai a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae ein haelodau'n darparu ystod eang o wasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl ymdopi â chyfnodau anodd, ailadeiladu eu hynanhyder, a byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Rydym yn gweithredu fel llais y sector, gan ddylanwadu ar ddatblygu a gweithredu polisïau, deddfwriaeth ac ymarfer sy'n effeithio ar ein haelodau ac ar y bobl maent yn estyn cymorth iddynt. Rydym yn awyddus i fod yn rhan o fudiad cymdeithasol sy'n rhoi terfyn ar ddigartrefedd a chreu Cymru lle gall pawb fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, a ffynnu yn eu cymunedau.

www.cymorthcymru.org.uk

## Tai Cymunedol Cymru

**Tai Cymunedol Cymru (CHC)** yw'r corff sy'n cynrychioli cymdeithasau tai a sefydliadau tai cymunedol cydfuddiannol yng Nghymru, sydd i gyd yn sefydliadau nid-er-elw. Ein cenhadaeth yw galluogi cymdeithasau tai Cymru i fod yn wych.

Mae ein haelodau yn darparu tua 165,000 o gartrefi a gwasanaethau tai cysylltiedig ar draws Cymru i tua 10% o'r boblogaeth. Yn 2020 gwariodd ein haelodau £1.3bn yn uniongyrchol yn economi Cymru gyda 85c ym mhob pump a wariwyd yn aros yng Nghymru.

Ein gweledigaeth 20 mlynedd yw Cymru lle mae cartref da yn hawl sylfaenol i bawb. Mae'r hyn y gofynnwn amdano yn syml: rhoi 'cartref' yng nghanol eich cynlluniau i gefnogi pobl Cymru i fyw bywydau iach, llewyrchus a chysylltiedig. Mae cymdeithasau tai yn sefyll yn barod i fuddsoddi, cydweithio a darparu gyda chi.

www.chcymru.org.uk

# Cyflwyniad

**Mae'r pandemig hwn wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cael lle diogel i'w alw'n gartref – ac at yr anghydraddoldebau amlwg a wynebir gan bobl ddigartref a'r rhai sy'n byw mewn llety o ansawdd isel, anniogel neu orlawn. Er gwaethaf yr heriau anferth a ddaeth yn sgil Covid-19, mae'r ymateb gan y sector digartrefedd a chymorth tai yng Nghymru wedi bod yn anhygoel. Gyda'n gilydd, rydym wedi dangos beth y gellir ei gyflawni gydag arweinyddiaeth gref, partneriaeth ddilys a'r cyllid angenrheidiol.**

Er bod busnesau wedi ailagor, a'r cyfyngiadau wedi cael eu llacio, dim ond megis dechrau mae'r gwaith caled i'r sector digartrefedd. Amcangyfrifir fod tua 67,000 o bobl[1] yng Nghymru ar y rhestr aros am dai cymdeithasol yn gynharach eleni, ac mae miloedd o bobl wedi dioddef digartrefedd yn y cyfnod wedi hynny. Mae dros 6,900 o bobl[2] mewn llety argyfwng, gyda rhyw fil bob mis yn troi at adrannau digartrefedd yr awdurdodau lleol. Mae'r her o'n blaenau yn un anferth.

## Fodd bynnag, mae gennym ni hefyd gyfle gwych.

Mae llawer o'r bobl sydd mewn llety argyfwng yn ymgysylltu â'r gwasanaethau am y tro cyntaf ers blynyddoedd – degawdau, hyd yn oed – er gwaethaf y ffaith eu bod wedi cael profiad o drawma a methiant yn y system. Yn sgil yr ymateb i Covid, chwalwyd nifer o'r rhwystrau roeddynt wedi eu hwynebu yn y gorffennol, a bellach mae gennym gyfle i roi cartrefi i bobl, ynghyd â'r cymorth mae arnynt ei angen i'w hatal rhag mynd yn ôl ar y strydoedd.

Roedd y gwaith a wnaed gan y Grŵp Gweithredu Digartrefedd wedi cyflwyno map ffordd i Gymru i roi terfyn ar ddigartrefedd, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddilyn y map hwnnw. Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n gosod targed o adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd, ac yn ailadrodd y cynllun i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd a chyflawni'r trawsnewid i ailgartrefu brys. Mae'r Cytundeb Cydweithio[3] a wnaed rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru yn ymrwymo i roi terfyn ar ddigartrefedd, ac os bydd pobl yn cael eu gwneud yn ddigartref dylai hynny fod am gyfnod byr yn unig ac yn rhywbeth prin na chaiff ei ailadrodd.

Mae ein gweithlu anhygoel yn llawn brwdfrydedd am gyflawni newid parhaus, a hynny'n dilyn y cyfnod mwyaf heriol yn eu gyrfaoedd. Roeddynt wedi parhau i ddarparu cymorth ar adeg pan oedd y rhan fwyaf o fusnesau'n cau eu drysau, ac maent wedi cadw pobl yn ddiogel a'u cefnogi drwy gydol y pandemig. Mae'n hen bryd i'r gwasanaethau gael eu hariannu'n ddigonol i allu darparu'r tâl, y gydnabyddiaeth a'r gefnogaeth mae'r gweithwyr allweddol hyn yn eu haeddu.

## Ond i gyflawni hyn oll, mae arnom angen buddsoddiad cyfalaf a refeniw parhaus.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru, ond os yw'r gobaith hwn yn mynd i gael ei wireddu, mae angen adlewyrchu hynny ym mhenderfyniadau eu cyllideb ar gyfer 2022/23. Wrth i Lywodraeth Cymru baratoi ei chyllideb ddrafft, a Phwyllgorau'r Senedd yn dechrau ar eu proses graffu, gofynnwn i Aelodau'r Senedd gefnogi ein tri blaenoriaeth:

- Darparu setliad cyllid dangosol dros dair blynedd ar gyfer y Grant Cymorth Tai, a fydd yn cynyddu o leiaf yr un faint â chwyddiant bob blwyddyn, o linell sylfaen o £166 miliwn.
- Buddsoddi o leiaf £300 miliwn ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol yng nghyllideb Cymru yn 2022/23, hyd at gyfanswm o £1.5 biliwn dros bum mlynedd.
- Dyrannu cyllid yng nghyllideb 2022/23 i alluogi awdurdodau lleol i barhau i ddarparu llety mewn argyfwng a chymorth i bobl ddigartref.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi mwy o fanylion, ac rydym yn annog Aelodau'r Senedd o bob plaid wleidyddol i gefnogi'r egwyddorion hyn a chryfhau eu hymrwymiad i roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru.



**Katie Dalton**
Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru



**Stuart Ropke**
Prif Weithredwr, Cartrefi Cymunedol Cymru

---

1 Shelter Cymru, 2021
2 Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan, Llywodraeth Cymru, Medi 2021
3 Y Cytundeb Cydweithio, Lywodraeth Cymru a Plaid Cymru, 2021

# Y Grant Cymorth Tai

**Y Grant Cymorth Tai (GCT) yw prif ffynhonnell ariannol Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun osgoi digartrefedd. Mae'n cefnogi mwy na 60,000 o bobl bob blwyddyn i'w galluogi i fyw'n annibynnol ac i ffynnu yn eu cymunedau.**

Drwy ddarparu llochesau, llety â chymorth a gwasanaethau cymorth tenantiaeth, mae'r Grant yn galluogi pobl i symud o ddigartrefedd, cefnu ar sefyllfa dreisiol, cynnal eu tenantiaethau, gorchfygu problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, adeiladu ar eu cryfderau, a chyflawni eu gobeithion. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael effaith sylweddol ar fywydau pobl, ac yn cyfrannu tuag at Gymru sy'n fwy gwydn, iach, ffyniannus a chyfartal, gan gefnogi nodau Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nododd y Grŵp Gweithredu Digartrefedd bwysigrwydd cymorth ym maes tai, gan alw – yn ei adroddiad allweddol[1] ar sut i roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru – am gynnydd yng nghyllideb y Grant Cymorth Tai. Daw hyn yn bwysicach fyth wrth i Gymru wneud y newid i ailgartrefu brys. Cafwyd cynnydd yng nghyllideb y Grant Cymorth Tai y llynedd i gydnabod pwysigrwydd ariannu gwasanaethau cymorth. Er mwyn adeiladu ar yr ymdrechion a wnaed i leihau digartrefedd yn ystod y pandemig, mae'n hanfodol fod yr arian yn cael ei ddiogelu a'i gynyddu ymhellach yng nghyllidebau'r dyfodol, a hynny o leiaf yn unol â chwyddiant.

Rheswm pwysig arall dros ddiogelu a chynyddu'r Grant Cymorth Tai yw i alluogi gwasanaethau i dderbyn cyllid digonol fel bod modd iddynt dalu cyflog teg i'w staff, a darparu'r cymorth mae arnynt ei angen. Maent wedi arbed a thrawsnewid bywydau yn ystod y pandemig – ac eto maent ymhlith y gweithwyr sy'n derbyn y cyflogau isaf yng Nghymru, a hynny er eu bod yn aml yn cael profiad o drawma dirprwyol o ganlyniad i'r gwaith maent yn ei wneud. Mae'n hen bryd iddynt dderbyn y wobr, y gydnabyddiaeth a'r cymorth maent yn eu haeddu – neu rydym mewn perygl o golli gweithlu hynod fedrus ac angerddol.

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllideb ddangosol dros dair blynedd ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Mae'r cylch cyllido blynyddol yn creu llawer o ansicrwydd ac yn golygu bod awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau, fel ei gilydd, yn ei chael yn amhosibl i gynllunio ar gyfer y dyfodol ac yn aml yn cael trafferth i recriwtio a chadw staff am na allant gynnig mwy o sicrwydd swyddi. Gydag adolygiad ariannol diweddar Llywodraeth y DU yn gosod cyllidebau hyd at 2024/25, dylai Llywodraeth Cymru roi'r sicrwydd mae'r gwasanaethau yn crefu amdano.

## Dylai Llywodraeth Cymru:

**Ddarparu setliad cyllid dangosol dros dair blynedd ar gyfer y Grant Cymorth Tai, a hwnnw'n cynyddu o leiaf yr un faint â chwyddiant bob blwyddyn, o linell sylfaen o £166 miliwn.**

1 Y fframwaith o bolisïau, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, 2020

## Gwerth am arian – arbedion i wasanaethau cyhoeddus

Yn ogystal â newid bywydau, mae'r Grant Cymorth Tai hefyd yn lleihau'r pwysau ar nifer o wasanaethau cyhoeddus, o iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i gyfiawnder troseddol. Mewn ymchwil a wnaed yn ddiweddar gan Brifysgol Met Caerdydd[1] canfuwyd fod pob £1 a fuddsoddir mewn gwasanaethau Grant Cymorth Tai yn darparu £1.40 net o arbedion i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn hafal i £300miliwn mewn arbedion gros bob blwyddyn. Canfu Research for Crisis fod atal digartrefedd yn gallu arwain at arbedion o tua £9,266 y person o'i gymharu â chaniatáu i ddigartrefedd barhau am 12 mis[2].

**Dengys ymchwil fod pob £1 a fuddsoddir mewn gwasanaethau GCT yn darparu arbediad net o £1.40**

### Buddion i wasanaethau tai a digartrefedd


- Mae'n galluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 drwy gynnig cymorth tenantiaethau a thai â chymorth.
- Mae'n darparu llety argyfwng i bobl sy'n ddigartref neu'n ffoi rhag trais yn y cartref.
- Mae'n atal achosion o ddadfeddiant, gan leihau'r pwysau ar adrannau digartrefedd.
- Mae'n darparu tai a chymorth i bobl i'w galluogi i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

### Buddion i wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

- Mae'n lleihau'r pwysau ar feddygon teulu, ysbytai a'r gwasanaeth ambiwlans.
- Mae'n helpu pobl i gael gwell rheolaeth ar eu hiechyd meddwl ac osgoi gorfod mynd i'r ysbyty.
- Mae'n atal pobl rhag gorfod aros cyn cael eu rhyddhau o'r ysbyty.
- Mae'n helpu pobl i fynd i'r afael â phroblemau gyda chamddefnyddio sylweddau.
- Mae'n atal pobl hŷn rhag bod ag angen gofal preswyl.
- Mae'n galluogi pobl a chanddynt anableddau dysgu i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau.
- Mae'n cefnogi nifer fawr o rieni a theuluoedd, a gall leihau risgiau diogelu a lleihau'r pwysau ar wasanaethau plant.

### Buddion i wasanaethau cyhoeddus eraill

- Mae'n gostwng achosion o aildroseddu, gan wella diogelwch yn y gymuned.
- Mae'n helpu teuluoedd i ffoi rhai trais yn y cartref trwy ddarparu llety a chymorth.
- Mae'n rhoi cefnogaeth i blant i'w galluogi i lwyddo yn yr ysgol trwy ddarparu amgylcheddau teuluol diogel a sefydlog.
- Mae'n cefnogi pobl sy'n aml ar y cyrion i gael mynediad/ailfynediad at addysg, gwirfoddoli, hyfforddiant a gwaith, a hynny'n aml drwy eu mentrau cymdeithasol hwy eu hunain.




1 Dangos Tystiolaeth o Effaith y Grant Cymorth Tai yng Nghymru, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, 2020
2 Better than Cure? Testing the case for Enhancing Prevention of Single Homelessness in England, Crisis, 2016

# Ariannu tai cymdeithasol

**Roedd y Grŵp Gweithredu Digartrefedd yn gwbl ddiamwys yn ei alwad i gynyddu'r ddarpariaeth o dai cymdeithasol, gan osod hyn wrth galon y fframwaith o bolisïau i roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru. Gydag amcangyfrif o 67,000 o bobl[1] ar y rhestr aros am dai cymdeithasol, a thros 6,900 o bobl[2] mewn llety argyfwng, mae'n amlwg bod angen i Gymru adeiladu rhagor o dai cymdeithasol.**

Rydym yn rhoi croeso cynnes i ymrwymiad y Rhaglen ar gyfer y Llywodraeth i adeiladu 20,000 o dai cymdeithasol carbon-isel yn ystod tymor y Senedd hon. I sicrhau bod y gwaith cyflenwi'n cael dechrau da, mae'n holl bwysig bod yr uchelgais hon yn cael ei chefnogi gan fuddsoddiad o'r cyfalaf angenrheidiol. Mae'r cartrefi hyn yn hanfodol os yw gobeithion uchelgeisiol Llywodraeth Cymru am ailgartrefu brys am gael eu gwireddu.

Mae'r Cynllun Gweithredu i roi Terfyn ar Ddigartrefedd yn gosod allan yr angen i symud o ymateb mewn argyfwng i gynllun ataliad er mwyn gwneud digartrefedd yn rhywbeth prin, am gyfnod byr, na chaiff ei ailadrodd. Bydd angen i rywfaint o lety argyfwng fod ar gael bob amser, ond ni fydd modd cyflenwi cynllun ailgartrefu brys ar raddfa dderbyniol hyd nes y bydd niferoedd digonol o gartrefi fforddiadwy a hunangynhwysol ar gael, ynghyd â'r lefel briodol o gymorth.

Rydym yn rhannu'r uchelgeisiau hyn. Er mwyn cyflenwi'r tai cymdeithasol y mae angen amdanynt, ar y raddfa a'r cyflymder priodol, mae ar landlordiaid cymdeithasol angen sicrwydd o gyllid tymor-hir i wneud i bob punt weithio cyn galeted ag y bo modd, ac i fynd ati yn y dull mwyaf effeithiol i gynllunio, buddsoddi, cymryd risg ac adeiladu partneriaethau. Gyda Llywodraeth y DU, yn ei hadolygiad gwariant diweddar, yn gosod cyllidebau hyd at 2024/25, mae gan Lywodraeth Cymru gyfle i osod allan cyllidebau dangosol yng nghyd-destun y Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer y tair blynedd nesaf.

I grynhoi, dylai Gweinidogion Cymru ymrwymo i drefniant cyllido tair-blynedd yng nghyd-destun y Grant Tai Cymdeithasol, er mwyn rhoi sicrwydd tymor-hir a gallu adeiladu cynifer o dai ag y bo modd. Mae angen Grant Tai Cymdeithasol gwerth £300 miliwn yng nghyllideb 2022/23, hyd at raglen fuddsoddi o £1.5 biliwn dros y bum mlynedd nesaf.

## Dylai Llywodraeth Cymru:

**Fuddsoddi o leiaf £300 miliwn ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol yng nghyllideb Cymru am 2022/23, hyd at gyfanswm o £1.5 biliwn dros bum mlynedd.**

1 Shelter Cymru, 2021
2 Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan, Llywodraeth Cymru, Medi 2021

## Buddion i swyddi a'r economi

- Ar gyfer pob un person a gyflogir yn llawn amser gan gymdeithas tai, mae 1.5 o swyddi eraill o ansawdd da yn cael eu cefnogi mewn rhan arall o'r economi[1].
- Mae ymchwil yn amcangyfrif y bydd adeiladu 20,000 o dai cymdeithasol yn cynnal dros 7,000 o swyddi a 3,000 o gyfleoedd am hyfforddiant ar draws Cymru, ac yn cynhyrchu bron i £2 biliwn mewn allbwn economaidd[2].
- Drwy fuddsoddi mewn cartrefi newydd a rhai sy'n bodoli eisoes, mae cymdeithasau tai yn helpu i gryfhau economïau lleol gan ddarparu swyddi a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol. Mae cymdeithasau tai yn gwario 85c ym mhob punt yng Nghymru, ac maent yn gobeithio cynyddu hyn i 90c ym mhob punt erbyn diwedd tymor y Senedd[3].
- Yn 2018/19, buddsoddodd cymdeithasau tai swm o £4 miliwn i ddarparu hyfforddiant ar gyfer eu tenantiaid, gydag 8,000 o bobl yn derbyn cymorth gyda chyflogadwyedd a datblygu sgiliau.

## Buddion iechyd

- Mae cartrefi gwael yn costio £95 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru. Fodd bynnag, mae cartrefi o ansawdd da yn arbed arian i'r GIG[4].
- Gallai pob £ a werir ar wella cynhesrwydd mewn aelwydydd niwediadwy arwain at £4 o enillion ar fuddsoddiad[5].

## Helpu i roi terfyn ar ddigartrefedd

- Yn gynharach eleni, amcangyfrifodd Shelter Cymru fod yna tua 67,000[6] o aelwydydd ar restrau aros am dai cymdeithasol – ac mae ffigurau Llywodraeth Cymru'n datgan bod dros 6,500 o bobl mewn llety argyfwng.
- Mewn ymchwil a wnaed yn 2018 gan Crisis, yr elusen i'r digartref, dangoswyd fod angen i Gymru adeiladu 4,000 yn fwy o gartrefi cymdeithasol bob blwyddyn am y 15 mlynedd[7] nesaf.

1 Effaith Economaidd-Gymdeithasol y Sector Cymdeithasau Tai a Sefydliadau Cymunedol Cydfuddiannol, 2017/18
2 Effaith Economaidd-Gymdeithasol y Sector Cymdeithasau Tai a Sefydliadau Cymunedol Cydfuddiannol, 2017/18
3 Maniffesto Etholiad y Senedd, Cartrefi Cymunedol Cymru, 2021
4 Gwneud Gwahaniaeth Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi, Iechyd Cyhoeddus Cymru and CHC, 2019
5 Gwneud Gwahaniaeth Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi, Iechyd Cyhoeddus Cymru and CHC, 2019
6 Shelter Cymru, 2021
7 Housing supply requirements across Great Britain, Crisis, 2018


# Ariannu llety argyfwng

**Ar ddechrau'r pandemig hwn gweithredodd Llywodraeth Cymru mewn modd cadarn, gan gyhoeddi swm o £10 miliwn ar gyfer llety argyfwng a chymorth i alluogi pobl i ddod oddi ar y strydoedd ac aros mewn lle diogel. Wrth i Covid-19 barhau i roi pwysau ar fywydau pobl, eu perthynas â phobl eraill a'u sefyllfa ariannol, mae miloedd o bobl wedi troi at wasanaethau digartrefedd yr awdurdodau lleol yn ystod y pandemig hwn.**

Yn anffodus, mae ffactorau strwythurol – megis diffyg tai gwirioneddol fforddiadwy – wedi golygu bod miloedd o bobl wedi gorfod aros mewn llety argyfwng, er gwaethaf ymdrechion glew i'w helpu i symud i gartrefi parhaol. Ar hyn o bryd mae dros 6,900 o bobl mewn llety argyfwng, gyda rhyw 1,000 o bobl yn troi at adrannau digartrefedd yr awdurdodau lleol bob mis[1].

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyllid i'r awdurdodau lleol am weddill y flwyddyn ariannol hon – ond oherwydd diffyg tai gwirioneddol fforddiadwy fe wyddom y bydd pobl yn parhau i fod ag angen llety argyfwng wrth i ni fynd i mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'n hanfodol bod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru'n cynnwys cyllid ar gyfer awdurdodau lleol i ganiatáu iddynt barhau i sicrhau bod llety argyfwng ar gael i mewn i 2022/23.




## Dylai Llywodraeth Cymru:

**Ddyrannu cyllid yng nghyllideb 2022/23 i alluogi awdurdodau lleol i barhau i ddarparu llety argyfwng a chymorth i bobl ddigartref.**

1 Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan, Llywodraeth Cymru